




Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Nodi'r cysylltiadau mewn adrannau tai awdurdodau lleol

Adroddiad ar Arolwg o Weithwyr Tai Proffesiynol mewn Llywodraeth
Leol



Crynodeb Gweithredol

Datgelodd ein hymchwil ystod o ganfyddiadau sy'n adlewyrchu profiadau a mewnwelediadau gweithwyr tai proffesiynol mewn awdurdodau lleol. Ymysg y rhain oedd y canlynol:

- Mae mwyafrif llethol yn cefnogi cyflwyno hawl i gartref digonol yng Nghymru
- Teimlodd dau draean fod eu hawdurdod lleol yn cydnabod rôl y sector tai wrth greu cymunedau cynaliadwy
- Teimlodd y mwyafrif helaeth fod ehangu'r cyflenwad cartrefi fforddiadwy yn flaenoriaeth yn eu hawdurdod lleol
- Mae pobl yn gweithio mewn rolau tai gydag awdurdodau lleol i helpu pobl, ond oherwydd y llwyth gwaith, prinder staff a straen mae risg o danseilio'r dymuniad hwn.

Pam y gwnaethom ni'r arolwg hwn?

Ein diben yw cyfrannu at gyd-drafodaethau, polisi a'r agenda ddeddfwriaethol o gwmpas tai yng Nghymru, ac rydym yn cael ein cyfeirio gan brofiadau pobl o bob cwr o Gymru.


Roeddem eisiau clywed gan bobl sy'n gweithio mewn adrannau tai awdurdodau lleol am eu profiadau, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y mae pobl yn ei rhannu gyda ni i gyfeirio ein blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol ac mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a grwpiau dylanwadol eraill.

Fe dderbyniom yr atebion i'r arolwg hwn ym misoedd Chwefror a Mawrth, cyn effaith y Coronafeirws a'r cyfyngiadau symud dilynol. Bydd llawer wedi newid ers hynny ond roeddem eisiau sicrhau y gall staff uwch mewn Awdurdodau Lleol fyfyrar ar yr hyn y dywedodd eu staff wrthym wrth iddynt gynllunio blaenoriaethau newydd.

Roeddem eisiau deall barn staff tai awdurdodau lleol am eu hawdurdod lleol a'i flaenoriaethau. Roeddem yn awyddus i ddeall y pwysau sydd ar staff hefyd, beth sy'n eu symbylu i weithio ym maes tai a beth fyddai'n eu helpu yn eu gwaith.

Mae CIH Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid a deddfwyr i ymwreiddio'r hawl i gartref mewn deddfwriaeth fel a ddisgrifir yn ein hadroddiad ar y cyd gyda Shelter Cymru a Tai Pawb. Gofynnem i'r rhai a atebodd ein harolwg a oeddent yn cefnogi'r ffocws hwn, a dwedodd dros ddau draean o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn cytuno â'r datganiad hwn. Byddai cael cartref fel hawl yn newid y gyd-drafodaeth am dai o ffocysu ar angen i ffocysu ar urddas a chyfle cyfartal.

Roeddem eisiau gwybod hefyd i ba raddau y mae gweithwyr tai proffesiynol yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn cydnabod y rôl y mae tai'n ei chwarae wrth greu cymunedau cynaliadwy. Fel prosiect sy'n ffocysu ar sicrhau y gall yr holl weithwyr tai proffesiynol ddweud eu dweud yn y maes hwn, roedd o ddiddordeb mawr i ni i 68% o bobl gredu fod eu hawdurdod lleol yn cydnabod rôl y sector tai wrth adeiladu cymunedau cynaliadwy. Mae hyn yn golygu nad yw'r 32% sy'n weddill yn teimlo bod y sector tai wedi'i gydnabod wrth greu cymunedau cynaliadwy - cryn nifer o bobl. Byddem yn annog y rhai mewn rolau uwch sydd â chyfrifoldeb dros dai mewn



awdurdodau lleol ystyried a yw hyn yn destun pryder yn eu hardal ai beidio.

Gofynnwyd i staff beth oedd blaenoriaeth eu hawdurdod lleol yn eu tyb hwy a'r ymateb pendant oedd cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy, ni fydd hyn yn syndod i'r sawl sy'n darllen yr adroddiad hwn.


Mae adran derfynol yr adroddiad yn canolbwyntio ar y pwysau sydd ar staff a'r hyn a fyddai'n eu helpu. Rydym yn annog arweinwyr a staff uwch cynghorau i ddarllen yr adroddiad hwn a deall y problemau y mae staff rheng flaen sy'n cyflwyno un o'r gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru yn eu hwynebu. Wrth i'r sector tai, a llawer o wasanaethau eraill, ailgyflunio sut mae'n cyflwyno cartrefi diogel i aelwydydd yn ystod yr argyfwng Coronafeirws (COVID-19) a'r tu hwnt, fe fydd yn hollbwysig ystyried llesiant y gweithwyr proffesiynol hyn ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud.

Beth yw arwyddocâd ein canfyddiadau?

Mae ein hymchwil wedi darganfod mai'r hyn sy'n cymhell pobl sy'n gweithio mewn adrannau tai Awdurdodau Lleol yw "helpu pobl". Ond dywed yr un staff hynny iddynt deimlo o dan bwysau, o dan straen oherwydd eu llwyth gwaith a bod angen mwy o staff yn eu hadrannau i'w galluogi i wneud eu gwaith.

Cred saith o bob deg o ymatebwyr fod eu hawdurdod lleol yn cydnabod y rôl y mae tai'n ei chwarae wrth greu cymunedau cynaliadwy. I lawer o awdurdodau lleol, y flaenoriaeth yw cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael, ac mae angen lefelau staffio sy'n cyfateb i hyn er mwyn rheoli tai'n well ar gyfer yr holl gymunedau.

Wrth gwrs mae taclo digartrefedd yn flaenoriaeth ar draws Cymru, ond mae angen i ni fod yn siŵr bod gennym yr isadeiledd i fedru ymwreiddio dulliau gweithio sy'n sicrhau bod gan bawb hawl i gartref. Mae ein cwestiynau mewn perthynas â chanfyddiadau ymatebwyr o alluedd Awdurdodau Lleol i oresgyn digartrefedd ac i weithio ar y cyd gydag adrannau eraill yn awgrymu bod gwaith eto i'w wneud i wella hyder staff yn y meysydd hyn.



1. Cyflwyniad


Mae gan weithwyr tai awdurdodau lleol amrywiaeth eang o gyfrifoldebau, gan gynnwys helpu pobl i ddod o hyd i gartref priodol, rheoli cynllunio cymunedol a darparu cysylltiadau ag isadeiledd hanfodol (gan gynnwys cyfeiriadau at wasanaethau cefnogi).

Prosiect polisi 5 mlynedd yw Tyfu Tai Cymru (TTC) sy'n gweithio trwy'r Sefydliad Tai Siartredig (Cymru) gyda'r nod o lenwi bylchau mewn tystiolaeth a defnyddio lleisiau gweithwyr tai proffesiynol i gefnogi'r gwaith o greu polisi yng Nghymru. Gan fyfrio ar un o brif nodau TTC - 'Sicrhau bod tai bob amser yn flaenoriaeth ar gyfer llywodraeth leol', nod yr ymchwil hon yw rhoi llwyfan i leisiau'r proffesiwn tai mewn llywodraeth leol, gan amlygu'r cyfleoedd a heriau y maent yn eu hwynebu yn yr hinsawdd bresennol.

Fe ysgrifennom i weithwyr tai proffesiynol mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru a derbyniom 51 o atebion, 39 gan bobl sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol nad ydynt wedi trosglwyddo eu stoc a 12 gan rai mewn

awdurdodau sydd wedi'i drosglwyddo. Roedd yr arolwg ar agor am tua 4 wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2020. Casglwyd yr atebion cyn i'r argyfwng a chyfyngiadau symud Coronafeirws (COVID-19) ddigwydd. Yn ddiweddarach yn y papur hwn, rydym yn myfrio ar sut y gallai'r argyfwng COVID-19 ddylanwadu ar y materion a'r cyfleoedd a amlygir yn yr adroddiad hwn.


Gofynnem gyfres o gwestiynau i weithwyr tai awdurdodau lleol mewn perthynas â'u rolau a'r heriau y maent yn eu hwynebu, a'u canfyddiadau ynglŷn â faint o gynnydd y mae eu hawdurdod lleol eu hunain yn ei wneud mewn meysydd allweddol megis lliniaru digartrefedd a gweithio ar y cyd.



1.1 A ddylid ymwreiddio'r Hawl i Gartref mewn deddfwriaeth?

Ar y cyd gyda Tai Pawb a Shelter Cymru, mae CIH Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r cyfle i ymwreiddio'r Hawl i Gartref mewn deddfwriaeth. Byddai hyn yn trawsnewid y drafodaeth o gwmpas tai o ffocysu ar bwy yr ystyrir eu bod yn "haeddu" cefnogaeth y wladwriaeth i ymwreiddio'r hawl i bawb, gan allu helpu'r rhai y mae angen cefnogaeth ariannol neu gefnogaeth arall arnynt.



Roeddem eisiau deall i ba raddau y mae'r galw hwn am newid ein deddfwriaeth wedi'i gefnogi gan weithwyr tai proffesiynol llywodraeth leol. Dwedodd dros dri chwarter o'n hymatebwyr wrthym iddynt gredu y dylai cartrefi fod yn hawl ddynol yn y deddfwriaeth.



1.2 Ydych chi'n credu bod eich awdurdod lleol yn cydnabod y rôl y mae tai'n ei chwarae wrth greu cymunedau cynaliadwy?

Wrth gydnabod y rôl y mae tai'n ei chwarae ym mywydau teuluoedd ac unigolion o ran darparu cartrefi, diogelwch a chymunedau, roeddem eisiau deall i ba raddau y mae gweithwyr tai proffesiynol yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn cydnabod hyn. Teimlodd dros ddau draean o ymatebwyr fod eu hawdurdod lleol yn cydnabod rôl y sector tai wrth greu cymunedau cynaliadwy.

Mae rôl ganolog tai wrth greu cymunedau cynaliadwy wedi'i gydnabod gan fy awdurdod lleol.





2. Gweithwyr Tai Proffesiynol

2a. Cymhelliad i weithio ym maes tai

Fel y corff aelodaeth ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol mae gennym ddiddordeb bob amser mewn clywed am yr hyn sy'n symbylu pobl i ddod i'r gwaith. Ni fu'n syndod i ni glywed mai'r ymateb mwyaf oedd "helpu pobl" (dros 60%). Mae'r symbyliad allgarol yn bwysig ac yn rhywbeth i'w ddathlu, ochr yn ochr â'r ymdeimlad mai un o'r "proffesiynau gofalu" yw gweithio ym maes tai.

Yr hyn a fu'n llai o ffactor ond wedi'i adnabod o hyd oedd yr ymdeimlad o "dîm" a "bod yn rhan o'r sector tai" (20%). Ystyriodd ymatebwyr fod cyfleoedd gyrfaoel yn llai pwysig.



2b. Beth yw'r pwysau sydd arnoch chi?

Nodwyd baich gwaith trwm tair gwaith yn amlach nag unrhyw fater arall gyda 26% o'r holl bleidleisiau, wedi'i ddilyn gan gyllideb/cyllid gyda 10%.

Mae baich gwaith trwm yn gysylltiedig â straen cynyddol a diffyg boddhad mewn rôl. Yn ystod blynyddoedd diweddar mae rhai awdurdodau lleol wedi cyfuno adrannau tai i mewn i gyfarwyddiaethau ehangach gyda rhai'n colli swyddi. Mae'r cyfuniad o ddeng mlynedd o galedi sydd wedi cael effaith drom ar awdurdodau lleol a buddsoddiad gostyngol mewn tai ynghyd â phwysau diweddar i gynyddu argaeledd cartrefi'n gyflym yn rhoi cryn dipyn o bwysau ar ysgwyddau gweithwyr tai proffesiynol.


	Pwnc	Canran
1	Llwyth gwaith	26
2	Cyllideb/cyllid	10
3	Diffyg tai fforddiadwy (pob daliadaeth)	8
4	Rhestri aros am dai cymdeithasol	7
5	Cydymffurfio	7
6	Ymgysylltu â thenantiaid	6
7	Casglu rhent	6
8	Cynllunio	5.5
9	Taclo digartrefedd	5.5
10	ystod o bynciau a dderbyniodd 2 bleidlais neu lai	19

"Diffyg galluedd i gyflawni amcanion/ Diffyg cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl/blaenoriaethau gwahanol yn y sector megis fforddadydd/ canfyddiadau'r cyhoedd/effaith ar ardaloedd lleol."

"Gostwng ôl-ddyledion yn yr hinsawdd anodd bresennol, parhau i ddarparu gwasanaeth da er gwaethaf prinder staff, parhau i weithio'n unol â chanllawiau presennol."

"Diffyg galluedd o ganlyniad i doriadau ariannol blaenorol. Lefelau straen yn y Tîm oherwydd llwyth gwaith beichus."

"Mae digartrefedd, Diwygio Lles (Credyd Cynhwysol), diffyg llety y mae pobl ei eisiau, diffyg cartrefi fforddiadwy, dinasyddion mewn tlodi sy'n gysylltiedig â Diwygio Lles a rhestri aros hir yn golygu dibyniaeth gynyddol ar y SRhP."



2c. Yn eich barn chi, beth fyddai'n gwneud eich rôl yn haws?

Gan adlewyrchu'r ymatebion uchod, nododd gweithwyr tai proffesiynol yr angen am fwy o staff i'w helpu i gyflwyno eu gwaith. Efallai bod hyn yn awgrymu nad yw blaenoriaeth awdurdodau lleol o ddatblygu mwy o gartrefi fel a amlinellir yn Adran 7 yr adroddiad hwn wedi'i pharu â nifer digonol o staff i gyflawni'r amcanion hyn.

Pwnc	Canran
Mwy o staff	23
Mwy o gyllid	13
Perthnasoedd gwell ag asiantaethau eraill	11
UDRh Gwell	8
Gweithio gydag eraill yn well	9
Isadeiledd gwell (TG, swyddogaethau Cyfathrebu)	11
Perthynas â Llywodraeth Cymru	6
ystod o bynciau a dderbyniodd 2 bleidlais neu lai	19


"Sicrwydd cyllid am o leiaf 3 blynedd (mwy os yn bosib). Byddai hyn yn galluogi datblygu mentrau, digon o amser i newid pethau y gwelir eu bod yn llai llwyddiannus ac am ddeilliannau mwy pwrpasol pan gaiff y cynlluniau/newidiadau eu hymwreiddio."

"Gweithio ar y cyd gydag asiantaethau cefnogi/ gwasanaethau cymdeithasol / iechyd meddwl."

"Medru canolbwyntio'n fwy ar ymyrryd ac atal yn gynnar yn hytrach na rheoli argyfyngau."

"Ymagwedd fwy cydlynus at y sector Tai o fewn y cyngor yn gyffredinol."

"Cael ein hystyried gan Lywodraeth Cymru fel budd-ddeiliad mewn materion tai."



2ch. Canfyddiadau o'u hawdurdodau lleol eu hunain

Rydym yn gwybod bod y cyd-destun lleol yn bwysig ac y bydd angen i awdurdodau lleol bennu blaenoriaethau gwahanol i ddiwallu'r anghenion yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i ddeall i ba raddau y ceir cydymffurfiaid ar draws awdurdodau lleol. Ni roddwyd terfyn ar atebion, ond nododd y rhan fwyaf o bobl 1 - 3 blaenoriaeth.

Rhannwyd y 95 o bynciau a grybwyllwyd i 23 o gategoriâu.

Canolbwyntiodd y categori mwyaf poblogaidd ar gynnydd yng nghyflenwad tai awdurdodau lleol (gan gynnwys adeiladu o'r newydd). Derbyniwyd dros 25% o'r pleidleisiau mewn perthynas â'r maes hwn.

Roedd y flaenoriaeth nesaf a amlinellwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â thaclo digartrefedd, gyda 14% o'r cyfanswm pleidlais.

Disgrifir y 5 ateb uchaf, gyda chanrannau o'r bleidlais, yn y tabl isod. Nododd ymatebwyr 17 categori arall a dderbyniodd dair pleidlais neu lai. Mae nifer y materion a nodwyd yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o swyddogaethau tai, adfywio a gofal a chefnogaeth y mae gweithwyr tai proffesiynol o fewn awdurdodau lleol o bosib yn ymwneud â nhw.


Pwnc	Canran
Awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad tai (gan gynnwys cartrefi newydd)	24
Taclo digartrefedd a chysgu allan	14
Safon Ansawdd Tai Cymru	9
Cynnal tenantiaethau	8
Safonau/atgyweiriadau	7
Eraill	38

"Dod o hyd i lety fforddiadwy addas ar gyfer ein cleientiaid."

"Sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy a chefnogi pobl sy'n agored i niwed."

"Lleihau digartrefedd, adfywio stoc, cynyddu prynu'n ôl/adeiladu o'r newydd."

"Datblygu mwy o Gartrefi Cymdeithasol, sicrhau tai fforddiadwy digonol a gostwng digartrefedd."




2d. Beth yw eich canfyddiad am allu eich awdurdod i ymdrin â, a gostwng, pob ffurf ar ddigartrefedd?

Mae gostwng digartrefedd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru gyda'r amcan o sicrhau bod yr holl ddigartrefedd yn cael ei atal a, lle nad yw hynny'n bosibl, "sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto¹". Er mwyn cynorthwyo gyda'r amcan hwn, gofynnwyd i staff awdurdodau lleol am eu hyder yn eu sefydliad i daclo digartrefedd.

Dim ond 50% o'r staff fu'n tybio bod eu hawdurdod mewn sefyllfa "dda" neu "gref iawn" i daclo digartrefedd, gyda 44% yn nodi digonol a 6% gwael. Gall fod rhesymau niferus dros hyn ond mae'r diffyg hyder hwn yn bwysig i'w ddeall.



- mae'n rhaid i flaenoriaethau gael eu paru ag adnoddau digonol er mwyn i staff fedru cyflwyno. Awgryma'r atebion i rai o'n cwestiynau cynharach y ceir pryderon o ran prinder staff a chyllid. Heb y rhain, fe fydd yn anos cyflawni llwyddiant os yw'r bobl sy'n cyflwyno'r gwaith yn gweld gwasanaeth "digonol" neu "wael" yn unig.



¹https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd_0.pdf

2dd. Mae digon o waith ar y cyd yn fy awdurdod i gyflwyno mwy o gartrefi

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i gyflwyno gwasanaethau a all wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. Mae'r ffaith y teimlai 42% o ymatebwyr nad oes digon o waith ar y cyd yn eu hawdurdod lleol i gyflwyno mwy o gartrefi'n destun pryder. Mae'n bwysig deall o ble mae'r farn hon wedi dod, a pha gamau y mae eu hangen i oresgyn hwn a datblygu gwaith ar y cyd ymhlith staff ar draws awdurdodau lleol.



3. Effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau symud

Fe gasglom ganfyddiadau'r arolwg hwn ym mis Chwefror 2020 a bryd hynny roedd y canfyddiadau'n glir; y blaenoriaethau ar gyfer awdurdodau lleol oedd cynyddu maint ac ansawdd y cartrefi. Llai na mis wedyn, gyda'r wlad yn ymateb i'r pandemig COVID-19 byd-eang a llawer o safleoedd adeiladu'n wag mewn ymgais i sicrhau cadw pellter cymdeithasol yn ddiogel ymysg yr holl staff, nid yw'n glir sut y bydd awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyheadau eu hunain neu rai Llywodraeth Cymru.

Mae'r arolwg hwn wedi datgelu bod gweithwyr tai proffesiynol wedi'u symbylu'n bennaf gan "helpu pobl". Mae hyn wedi bod yn berthnasol yn ystod y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud gan y pennwyd bod staff tai'n "weithwyr allweddol" yn eu rôl, gan gadw'n iach ac yn ddiogel gartref. Mae'n bwysig nad ydym yn colli cysylltiad â'r cymhelliad hwn i helpu eraill a'n bod yn parhau i wobrwyo staff tai trwy gydnabod eu rôl.

Yng Nghymru, ysgrifennodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at bob awdurdod lleol i ddatgan "na ddylai unrhyw un fod heb lety a chymorth addas yn ystod y pandemig hwn. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cysgu allan ar hyn o bryd, a'r rheini sydd dan fygythiad o orfod gwneud hynny, er enghraifft y rhai sy'n gadael carchardai neu sefydliadau eraill heb unrhyw lety i fynd iddo, a'r rheini sy'n dibynnu ar eraill megis unigolion sy'n mynd o sofffa i sofffa neu mewn llety dros dro anaddas2."


²https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/canllawiau-i-awdurdodau-leol-ar-gefnogi-pobl-syn-cysgu-allan-argyfwng-covid-19_0.pdf

Mae hyn yn awgrymu newid sylweddol ym mholisi'r llywodraeth i gyfarwyddyd cryfach ar ddyletswyddau awdurdodau lleol i roi cartrefi i bobl, mae hyn i'w groesawu ond mae'n bwysig cydnabod yr anhawster wrth wneud i hyn weithio'n ymarferol, fel a nodir mewn rhai o'n canfyddiadau.

Mae'r pandemig wedi amlygu hefyd bod angen ailfeddwl sut rydym yn darparu cartrefi mewn ffordd sy'n golygu y gall pobl fyw'n annibynnol ac ar yr un pryd cael mynediad i wasanaethau cefnogi hanfodol. Fel y mae'r arolwg hwn yn ei ddangos, mae gweithwyr tai proffesiynol o fewn awdurdodau lleol yn darparu llawer mwy na dim ond y brics a'r mortar, maent yn darparu cyngor a chefnogaeth mewn cyfnod ansicr hefyd.

Bydd ymchwil yn y dyfodol yn dymuno datgelu sut yr oedd modd i'r pandemig ledu o fewn a rhwng aelwydydd, a bydd yn dangos profiadau differol cartrefi sydd ag ystafelloedd sbâr (i alluogi pobl sydd â symptomau i hunanynysu), gerddi a gofodau awyr agored.

Dylai profiadau gweithwyr tai proffesiynol fod yn rhan ganolog o'r ymchwiliadau hyn fel pobl sydd â gwybodaeth uniongyrchol am sut i gyflwyno blaenoriaethau llywodraeth ganolog a lleol.




Argymhellion i staff uwch mewn awdurdodau lleol

1. Sicrhau bod 'Tai' yn cael ei gynnwys fel blaenoriaeth mewn cynlluniau corfforaethol, gan gynhyrchu'r manylder am gyflwyno ar y cyd gyda gweithwyr tai proffesiynol
2. Ymgymryd ag arolwg blynyddol i dracio llesiant staff sy'n gweithio mewn rolau gysylltiedig â thai ynghyd â chynllun gweithredu clir ar gyfer ymdrin ag unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.
3. Cynnwys rolau gysylltiedig â thai fel maes ffocws o fewn cynlluniau datblygu gweithlu gyda gweithgareddau clir i godi ymwybyddiaeth a phwysleisio amrywiaeth y rôl a natur wobrwyl y gwaith, gan greu cysylltiadau ag asiantaethau addysg uwch a chyflogaeth perthnasol.
4. Ymdrin â chydweithio ar draws adrannau fel mater o frys. Disgrifiodd ein hadroddiad blaenorol chwe egwyddor gweithio'n dda mewn partneriaeth a fyddai'n darparu sylfaen dda.

Argymhellion i Lywodraeth Cymru

5. Cydnabod dymuniad gweithwyr tai proffesiynol awdurdodau lleol i ymgorffori hawl i gartref yng nghyfraith Cymru, ac ymrwymo i wireddu hyn.
6. Ymgymryd â gwaith brys i ddadansoddi i ba raddau y gallai diffyg adnoddau (fel prinder staff, diffygion cyllid) danseilio gallu gweithwyr tai proffesiynol awdurdodau lleol i atal a lliniaru digartrefedd o fewn a thu hwnt i gyd-destun yr argyfwng COVID-19.
7. Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, adolygu eu gallu i gyflwyno tai mwy fforddiadwy yn uniongyrchol yn sgil COVID-19, gan ystyried sut y gallai disgwyliadau a thargedau symud o ganlyniad i hyn.





Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cwrdd â'r tîm:



Catherine May

rheolwr Tyfu Tai Cymru, CIH Cymru

E: catherine.may@cih.org T: 02920 741138



Matt Kennedy

rheolwr polisi a materion cyhoeddus, CIH Cymru

E: matthew.kennedy@cih.org T: 02920 741137



Matt Dicks

cyfarwyddwr, CIH Cymru

E: matthew.dicks@cih.org T: 02920 741131



Sharon Dean

cydlynnydd cefnogi cwsmeriaid, CIH Cymru

E: sharon.dean@cih.org T: 02920 741131

Tyfu Tai Cymru -
Gan Fod Tai'n Bwysig